

## Cofion

Parhawn i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Megan Evans (Llansannan), fel ag y mae Dilys Vaughan (Saron) a Ceinlys Jones (Llansannan) yn yr Inffirmari, a Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Mae Gwenllian Jones (Henllan) bellach wedi symud i gartref gofal Plas Eleri, Dinbych. Gobeithiwn y bydd yn setlo yno'n fuan, ac y bydd hi a gweddill y cleifion yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt. Diolchwn am bob gofal y maen nhw wedi ei dderbyn dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf hyn a gweddïwn eu bod yn parhau i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.

## I ddod

- **KESWICK – LLANDUDNO: WYTHNOS Y BEIBL** 'Overflowing Grace' gyda John Risbridger yn y Lighthouse Community, Ffordd y Gogarth, Llandudno LL30 2EJ (Mai 1af – 4ydd). **Cyfarfod Cymraeg** ar y nos Wener am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Rhodri Glyn yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, lau a Gwener am 10.30 y bore; a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30 yr hwyr. Gwneir casgliad.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Mai 2il gyda'r Parch. Aneurin Owen yn annerch am 2.00 a Mr Wynford Ellis Owen am 5.30. Darperir paned o de yn y Festri rhwng y ddau gyfarfod – croeso i chi ddod â phhecyn bwyd hefo chi.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan dydd Gwener, Mai 11eg. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan [colegybala.org](http://colegybala.org) neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk).
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs leuencid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.



# Llais Bro Aled

## Dydd Sul, 22<sup>ain</sup> Ebrill 2018

## Darllenid y Dydd

Eseciel 12:1-7

(BCND tud.760 / BCN tud.692)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i chi i'n hoedfaon heddiw. Dwi ar hyn o bryd (prynhawn dydd lau) yn rhyfeddu at y tywydd hafaidd yr ydym yn ei fwynhau (ymddiheuriadau mawr os ydych yn darllen hwn ar ddydd Sul a hithau'n oer a glawog eto!) O'r diwedd mae'r gwanwyn wedi cyrraedd – ond beth fydd hynny'n ei olygu i chi? Llawenydd o allu edrych ymlaen at adael y sied wyna, neu obaith o bosib y gallwch fynd am dro braf heb gap a menygi?! Arwydd clir fod pethau'n newid o ran y tymhorau yw'r anifeiliaid sy'n dangos eu pennau fel gwenoliaid neu'r gôg. A phryd oedd y tro diwethaf i chi glywed sŵn unigryw'r gwcw? Mae tipyn o flynyddoedd ers i mi ei chlywed ddiwethaf, ond mae hynny'n dweud mwy amdanaf i na'r gôg! Dwi ddim wedi clywed y gôg, gan nad ydw i wedi bod yn gwrando, nac yn treulio cymaint â hynny o amser allan yn yr awyr agored!

Mae'r Beibl yn ein rhybuddio yn aml fod methu clywed a deall yr hyn a ddywed Duw yn broblem gyffredin ymysg pobl. Nos Fercher daethom i ddiwedd y gyfres o gyfarfodydd *Dal i Gred* a gynhaliwyd yng Nghefn Meiriadog ac yn y sesiwn olaf roeddem yn ystyried sut yr oedd y disgyblion yn meddwl am Iesu yn ôl Efengyl Marc. Dyma'r bobl oedd wedi cael y seddi gorau i weld awdurdod Mab Duw wrth i Iesu ddysgu, iacháu a maddau pechod. Ond er y faint aruthrol yma, llwyddodd y disgyblion i gam-ddeall, i fetu gweld yn glir pwy oedd Iesu a pham yr oedd wedi dod atynt. Yn Marc 8:18 mae Iesu yn troi atynt ac yn gofyn iddynt: 'A llygaid gennych, onid ydych yn gweld, ac a chlustiau gennych, onid ydych yn clywed?' Er eu bod yn tybio eu bod yn deall ac yn gweld yn gywir pwy oedd Iesu, nid felly yr oedd. Cyhuddiad ddigon tebyg a welwn yn ein darllenid o Eseciel 12 heddiw hefyd. Pobl Dduw sydd ar fai gan eu bod yn wrthryfelgar ac oherwydd hynny'n methu gweld, clywed na deall neges Duw am eu cyflwr. Dyna pam mae Eseciel yn dangos iddynt trwy ddarn o ddrama gyhoeddus fod tro ar fyd. Mae'n pacio'i fagiâu fel petai'n mynd ar daith bell ac yn cloddio trwy wal y ddinas i arwyddo'r ffaith y byddai pobl Dduw yn cael eu cipio o'u tir gan y gelyn.

Er y rhybudd a ddaeth i bobl trwy Eseciel, roedd gobaith hefyd – fod Duw am weithredu i achub ei bobl. Ac mae'n gwneud hynny trwy Fab Dafydd, y Bugail da roddodd ei fywyd dros y defaid – 'Byddaf yn gosod arnynt un bugail, fy ngwas Dafydd, a bydd ef yn gofalu amdanynt; ef fydd yn gofalu amdanynt ac ef fydd eu bugail.' (Eseciel 34:23) Gweddïwn heddiw am i'r Ysbryd Glân roi llygaid ffydd i ni edrych ar Iesu, a chlustiau parod i wrando ac ufuddhau i'r Un sy'n ein galw ato'i hun.

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled 

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 25<sup>ain</sup> ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- **Torri Syched y merched** – seiat am 7.30 (*Ileoliad i'w gadarnhau*).
- Iau – 26<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yng Nghefn Berain. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Gwion yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Cefn Meiriadog yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 25<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (22<sup>ain</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> ➤ Trefniant lleol fydd i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Henllan am 2.00. Bydd croeso i bawb aros am banded a sgon ar ôl y gwasanaeth ac fe wneir casgliad i Shelter Cymru. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Yn ystod oedfa'r bore yng Nghefn Berain, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**

### Darlleniad Wythnos Nesaf

*Ioan 20:30-31 (BCND tud.127 / BCN tud.116)*